Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Rhostryfan

**Neuadd Ysgol Gynradd Rhostryfan**
**Rhostryfan**
**Caernarfon**
**LL54 7LR**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Rhostryfan

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Rhostryfan |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Rhostryfan |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Non Tudur |
| Person â gofal | Catrin Jones |
| Nifer y lleoedd | 26 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 16 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8:45 y.b. – 12:45 y.h. dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor ysgol. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Hwn yw arolygiad cyntaf y lleoliad ers ail-gofrestru ym mis Rhagfyr 2022. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 18/04/2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 19/03/2024 |
| Mae rhan fwyaf y plant yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Datblygu cyfleoedd pellach i blant ddatblygu eu dealltwriaeth o rif a siap wrth iddynt chwarae

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn fodlon. Maent yn ymdopi’n dda wrth adael eu rhieni ac yn awyddus i ymuno i chwarae gyda’u ffrindiau. Mae bron pob plentyn yn hyderus i wneud penderfyniadau a dewis sut maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad. Maent yn symud o gwmpas yr ystod eang o weithgareddau ac ardaloedd chwarae yn rhwydd. Mae hyn yn galluogi’r plant i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig yn eu hamser eu hunain yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf y plant yn mwynhau sgwrsio gyda’r ymarferwyr ac yn hapus i rannu eu diddordebau gyda hwy, er enghraifft, wrth ddangos a thrafod pethau oedd wedi tynnu eu sylw wrth fynd am dro.

Mae rhan fwyaf y plant yn mynegi eu hunain yn effeithiol ac yn gwybod y bydd eu barn yn cael ei barchu gan ymarferwyr. Er enghraifft, roedd plant yn hyderus i ddweud pan nad oeddent eisiau bwyta eu ffrwythau ac i ddweud pan oeddent eisiau mynd i chwarae tu allan. Mae’r rhan fwyaf yn gyfarwydd gyda’r drefn ddyddiol ac mae ganddynt berthynas bositif gyda’r ymarferwyr, sy’n rhoi teimlad o sicrwydd iddynt. Mae bron pob plentyn yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, sy’n eu gwneud yn awyddus i rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, maent yn frwdfrydig wrth ddangos y siapiau maent wedi eu creu gyda’r clai ac wrth ddangos pa flodau a pherlysiau maent wedi ychwanegu i’r clai. Maent yn gwenu’n fodlon wrth i’r ymarferwyr wrando arnynt yn astud a holi mwy o gwestiynau.

Mae rhan fwyaf y plant wedi cychwyn gwneud ffrindiau. Maent yn rhyngweithio’n dda gyda’u cyfoedion ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau gyda’i gilydd. Er enghraifft, maent yn cydweithio’n llwyddiannus y tu allan wrth greu trên gan

ddefnyddio cratiau a phlanciau pren wedi'u hailgylchu. Mae rhan fwyaf y plant yn hapus i rannu adnoddau gyda'u cyfoedion ac yn dysgu sgiliau cymdeithasol pwysig yn dda fel cymryd tro. Er enghraifft, wrth chwarae yn y twba tywod, mae plant yn hapus i rannu'r teclyn darganfod metel i chwilota am drysor ac i gymryd tro i dyrchu amdano gyda'r llwyau.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda wrth fynd i'r afael â thasgau ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol, er enghraifft wrth greu bwyd i'r adar ac wrth greu gwaith celf yn defnyddio mwd. Mae bron pob plentyn yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae a defnyddio eu dychymyg, er enghraifft wrth chwarae yn yr ardal chwarae rôl ac esgus gwneud bwyd i'w ffrindiau.

Mae rhan fwyaf y plant yn dewis gweithgareddau'n annibynnol ac yn dilyn eu diddordebau'n effeithiol. Maent yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth iddynt roi eu lluniau ar y pegiau i hunan gofrestru ac wrth fynd heb anogaeth i estyn hancesi papur i sychu eu trwynau. Mae rhan fwyaf y plant yn dyfalbarhau'n dda wrth geisio cwblhau tasgau drostynt eu hunain, er enghraifft, wrth dynnu a gwisgo eu cotiau ac esgidiau ac wrth gario eu bwyd draw at y bwrdd yn ystod amser cinio.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn rhoi gweithdrefnau effeithiol yn eu lle er mwyn sicrhau bod plant yn iach a diogel. Mae pob un ohonynt wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant ac yn hyderus am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe byddai unrhyw bryderon ganddynt am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg, sy'n eu paratoi i roi triniaeth briodol pe byddai angen. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n effeithiol, gan sicrhau bod rhieni'n arwyddo'r cofnodion hynny. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n drylwyr.

Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau cadarn er mwyn atal lledaenu heintiau. Er enghraifft, maent yn annog y plant i olchi eu dwylo pan fo angen ac yn dilyn gweithdrefnau addas wrth drin bwyd ac wrth newid cewynnau. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i fwyta ffrwythau ac yn sicrhau bod cyfleoedd cyson a buddiol iddynt ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae'r holl ymarferwyr wedi ffurfio perthnasau positif gyda'r plant ac yn siarad gyda nhw yn dyner a chlên a'u trin gyda gofal a pharch. Mae pob ymarferydd yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael

trafferthion wrth rannu neu gymryd tro a thrwy roi esboniad clir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr gyda’r plant ac yn eu canmol yn gyson. Maent yn llongyfarch plant am wneud ‘dewis da’ wrth ddysgu am rannu ac wrth ddysgu i reoli eu hemosiynau mewn ffordd bositif.

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn casglu digon o wybodaeth am hoffterau’r plant, eu hanghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn iddynt gychwyn mynychu'r lleoliad. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion unigol y plant. Mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle i sicrhau bod ymarferwyr yn medru gweithio’n llwyddiannus ag asiantaethau allanol os oes angen trefnu unrhyw gymorth ychwanegol. Mae ymarferwyr yn coladu gwybodaeth i greu llyfrau pwrpasol sy’n cael eu rhannu gyda rhieni ar ddiwedd pob blwyddyn. Mae’r rhain yn cynnwys ffotograffau o’r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a rhai o’u llwyddiannau. Mae ymarferwyr hefyd yn rhannu gwybodaeth gyson gyda rhieni drwy negeseuon breifat a thudalen breifat ar gyfryngau cymdeithasol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn ymateb yn effeithiol i ofynion y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn addasu’r ddarpariaeth gan ychwanegu adnoddau er mwyn annog bwrlwm a diddordeb y plant. O ganlyniad, mae’r plant yn chwarae am gyfnodau estynedig ac yn ymgolli’n llwyr. Mae’r adnoddau a’r teganau yn cael eu gosod mewn mannau hygyrch fel bod y plant yn medru cael mynediad hwylus atynt. Mae ymarferwyr yn holi’r plant yn fedrus er mwyn eu hannog i feddwl drostynt eu hunain.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau’r plant. Maent yn deall pwysigrwydd addysgu medrau penodol, er enghraifft wrth ddefnyddio siswrn i dorri papur i greu sbienddrych. Mae’r ymarferwyr yn annog datblygiad llafaredd y plant yn effeithiol trwy sgwrsio a bwydo geirfa’n barhaus. Maent yn darparu llyfrau ar draws ardaloedd y ddarpariaeth. Mae’r ymarferwyr yn darllen straeon yn rheolaidd ac mae’r plant yn mwynhau gwrando gan holi cwestiynau am yr hyn sy’n debygol o ddigwydd nesaf, er enghraifft wrth wrando ar stori’r tri mochyn bach. Ceir cyfleoedd buddiol i’r plant ddatblygu eu medrau modur mân wrth reoli gwahanol offer gwneud marciau fel pensiliau, sialc a brwsys paent. Mae cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu eu medrau creadigol. Maent yn mynd at wahanol offer yn hyderus ac yn eu defnyddio’n fedrus i beintio, neu greu gwrthrychau. Er enghraifft, maent yn defnyddio offer taro i greu rhythmau cerddorol ac yn creu cytserau celfydd, gan ddefnyddio llythrennau eu henwau a’u haddurno’n hyfryd fel eu bod yn sgleinio.

Mae ymarferwyr yn ymateb yn effeithiol i ddiddordebau’r plant a chyflwyno adnoddau sy’n apelio atynt. Er enghraifft, yn sgil diddordeb y plant mewn adar, mae ymarferwyr yn cynllunio cyfle i’r plant greu peli bwyd o fraster a hadau ar gyfer yr adar bach. Mae hyn yn datblygu medrau modur mân y plant yn effeithiol. Yna, fe ânt am dro ar lwybr cyfagos a gosod y peli ar ganghennau a gwylio’r adar mân yn dod i’w bwyta.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau corfforol y plant yn dda. Mae’r plant yn datblygu medrau cydbwyso’n llwyddiannus â chryfder wrth reidio’r beiciau i fyny ac i lawr llethrau’r buarth. Mae’r llwybr antur yn caniatáu iddynt gymryd risgiau priodol. Mae cyfleoedd buddiol i’r plant ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu trwy ddefnyddio offer fel teclyn darganfod metel er mwyn dod o hyd i fwclis yn y tywod. Maent yn defnyddio ffonau er mwyn sgwrsio yn yr ardal chwarae rôl, ac mae hyn yn datblygu eu medrau llafaredd yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd priodol i’r plant ddatblygu eu hymwybyddiaeth o rif a siâp trwy chwarae gyda gwahanol offer a chyfri wrth ganu caneuon cyfarwydd. Maent yn chwarae gyda siapau tri dimensiwn cyfarwydd ac yn dechrau eu gosod mewn trefn o ran maint. Fodd bynnag, nid yw’r elfen hon wedi ei datblygu’n llawn hyd yma. Fodd bynnag, nid yw’r cyfleoedd i’r plant ddatblygu eu medrau rhif wedi eu datblygu’n llawn.

Mae ymarferwyr yn gweithredu fel gweithiwr allweddol ar gyfer grŵp o blant. Mae hyn yn caniatáu iddynt ddod i adnabod y plant yn dda iawn ac maent yn cofnodi digwyddiadau allweddol yn natblygiad pob plentyn a rhannu’r wybodaeth gyda’r tîm. Mae hyn yn galluogi’r holl ymarferwyr i ymateb yn effeithiol i anghenion pob unigolyn. Mae ‘teithiau dysgu’ yn ddull effeithiol o grynhoi cynnydd ac adnabod y camau nesaf ar gyfer datblygiad plant unigol.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i’r plant ddysgu am ddiwylliant Cymru trwy ddathlu digwyddiadau fel Dydd Santes Dwynwen. Mae ymarferwyr yn sicrhau amrediad effeithiol o brofiadau aml ddiwylliannol ar gyfer y plant. Er enghraifft, mae’r plant yn dysgu am ŵyl Diwali gan ymwelwyr sy’n rhannu eu profiad o ddathlu’r ŵyl fel teulu.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant trwy ddarparu gweithdrefnau sy’n sicrhau bod unrhyw beryglon posib yn cael eu monitro a’u rheoli’n effeithiol. Maent wedi llunio asesiadau risg trylwyr yn amlinellu peryglon posib a’r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Maent hefyd yn gwirio’r dogfennau yma’n gyson, ac yn cwblhau asesiadau ychwanegol unrhyw weithgareddau newydd. Mae ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol o’r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau ac yn cadw cofnod o unrhyw gamau pellach bydd angen eu dilyn. Mae ymarferwyr yn delio gydag unrhyw beryglon sy’n cael eu canfod yn gyflym ac yn effeithiol. Er enghraifft, drwy lanhau'r tywod a chlai oddi ar y llawr yn gyson er mwyn lleihau'r risg o lithro.

Mae’r ystafell chwarae yn braf, cyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael teimlad o berthyn drwy arddangos esiamplau o’u gwaith ar y waliau a cynnwys ffotograffau’r plant yn yr ardal hunan gofrestru. Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod yr ystafell chwarae yn cynnig ystod eang o weithgareddau ac adnoddau ysgogol a chyffrous sy’n cyfoethogi profiadau’r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae amrywiaeth o ddeunyddiau ac offer naturiol fel dail, brigau, blodau a pherlysiau ar draws llawer o’r ardaloedd chwarae er mwyn adeiladu ar ddealltwriaeth y plant o’r byd o’u cwmpas. Mae’r ardal chwarae tu allan yn cynnig nifer fawr o brofiadau cyffrous sy’n ennyn

diddordeb y plant yn effeithiol, er enghraifft, cyfle i arbrofi gyda mwd a hadau yn y gegin fwd.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ystod eang o adnoddau yn lân ac o ansawdd da. Maent yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Cedwir cofnodion trylwyr o'r tasgau glanhau, gan gynnwys di-heintio'r teganau'n rheolaidd. Mae arweinwyr wedi cychwyn buddsoddi mewn adnoddau er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol. Mae hyn yn helpu'r plant ddysgu i fod yn ddinasyddion goddefgar ac i ddeall gwahaniaethau yn y byd o'u cwmpas.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Ers ei phenodiad i rôl arweinydd y cylch yn gymharol ddiweddar, mae'r arweinydd wedi gweithio'n ddiwyd i wireddu ei gweledigaeth ar gyfer cylch meithrin hapus lle mae'r plant yn mwynhau mynychu, yn ffynnu, ac yn gwneud cynnydd yn eu medrau. Mae'n cydweithio'n agos gyda phwyllgor rheoli ymroddgar er mwyn cynnig y gwasanaeth gorau posibl. Mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm fel eu bod yn darparu profiadau difyr ar gyfer y plant.

Mae arweinwyr yn craffu ar y ddarpariaeth yn barhaus er mwyn adnabod cryfderau ac agweddau allai elwa o'u datblygu ymhellach. Mae'r ymarferwyr, aelodau'r pwyllgor rheoli a'r rhieni yn derbyn cyfleoedd i gyfrannu, ac mae arweinwyr yn pwyso a mesur yr hyn ddylai ddod yn flaenoriaethau. Yn ddiweddar, penderfynwyd addasu'r modd o gasglu barn rhieni a bellach maent yn ymgysylltu'n fwy effeithiol trwy broses ar-lein sy'n fwy hygyrch a hwylus iddynt.

Mae'r broses o hunanwerthuso yn arwain at flaenoriaethau gwella priodol sy'n derbyn sylw wrth ystyried anghenion dysgu proffesiynol ymarferwyr. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae'r lleoliad wedi datblygu eu dulliau o gynllunio'n ymatebol er mwyn ystyried diddordebau'r plant yn llawn. Yn sgil trafodaethau gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod addysg lleol, maent wedi addasu'r modd y maent yn gosod offer fel eu bod yn hygyrch ar gyfer y plant yn ystod sesiynau.

Mae arweinwyr yn gweithredu sustemau recriwtio diogel ac mae ganddynt drefniadau da i werthuso perfformiad ymarferwyr. Mae trefniadau goruchwyliaeth wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod hyfforddiant yn canolbwyntio ar agweddau sy'n flaenoriaethau personol ar gyfer ymarferwyr unigol ac anghenion datblygiad y ddarpariaeth. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr wedi canolbwyntio ar ddatblygu creadigrwydd plant gan fynychu hyfforddiant a thrafod gydag ymarferwyr eraill o fewn y sector. Mae hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar y ffordd y maent yn darparu ar gyfer datblygu creadigrwydd y plant.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n agos a rheolaidd gyda thîm ymgynghorol blynyddoedd cynnar yr awdurdod addysg lleol. Maent wedi cyd weithio'n effeithiol er mwyn datblygu'r modd y mae ymarferwyr yn cyflwyno'r cwricwlwm. Yn un modd, mae gan arweinwyr berthynas agos a chefnogol gyda swyddogion mudiadau cefnogi sy'n darparu polisïau a gweithdrefnau, ynghyd a hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr y cylch.

Mae gan arweinwyr berthynas agos a chefnogol gyda’r ysgol lle lleolir y ddarpariaeth. Mae hyn yn sicrhau fod y plant yn symud ymlaen yn hapus at y cam nesaf yn eu dysgu. Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthynas agos a chefnogol gyda rhieni’r plant. Maent yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd lle ceir cyfleoedd i rieni drafod lles a chynnydd eu plant ac yn sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am ddatblygiad eu plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/05/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 24 Mai 2024